
PARTNERIAETH AWYR-AGORED
Profiad • Mwynhau • Llwyddo
Experience • Enjoy • Achieve
OUTDOOR PARTNERSHIP

# Gwella Bywydau Pobl Drwy Weithgareddau Awyr Agored




# 2022
# ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored (Y BAA) yn elusen gofrestredig a sefydlwyd yn 2004 i wella cyfleoedd ar gyfer pobl leol i gyflawni hyd eithaf eu gallu drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Pob blwyddyn, mae'r elusen yn mynd ati i gynnig miloedd o gyfleoedd i bobl ymwneud gyda'u cyfoeth naturiol drwy gymryd rhan, presgripsiynu cymdeithasol, gwirfoddoli, cynlluniau hyfforddi a dod o hyd i waith, gwella iechyd pobl a hybu llesiant cymdeithasol ac economaidd.



Bu 2022 yn flwyddyn heriol unwaith eto i ein cymunedau, ein mudiadau partner a'r grwpiau a'r unigolion rydym yn cydweithio gyda nhw, wrth i ni symud allan o'r pandemig. Fodd bynnag roedd cryn dipyn inni ddathlu yn ogystal ac rydw i'n gobeithio y bydd yr adroddiad cryno hwn yn cynnig blas o'r gwaith cadarnhaol yn ystod y 12 mis diwethaf.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n holl arianwyr, noddwyr, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth barhaus. Gyda diolch iddyn nhw am eu cefnogaeth, bu modd inni ddal ati gyda'n gwaith drwy gydol y pandemig - er y bu gofyn inni addasu ein ffyrdd o weithio.

Hoffem estyn diolch i weithwyr a phartneriaid Y BAA sydd wedi rhoi o'u hamser a chynnig eu harbenigedd i helpu eraill yn ystod y cyfnod anodd hwn.

*Ar y cyfan, mae'r elusen wedi llwyddo i gynnig 28,422 o gyfleoedd gweithgareddau awyr agored i drigolion lleol ledled Cymru, Cymbria, Gogledd Iwerddon a Swydd Aeron. At hyn, bu i'r BAA chwarae rhan ddylanwadol ynghlwm â nifer o brosiectau cenedlaethol sy'n torri tir newydd.*

# Rhaglen Datblygu Gymunedol

Mae'r rhaglen dan arweiniad ein Swyddogion Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored yng Ngwynedd, Conwy, Ynys Môn, Canolbarth Cymru, Canolbarth De Cymru, Gwent, Rhanbarth Bae Abertawe, Swydd Aeron, Cymbria a Gogledd Iwerddon. Nod y rhaglen ydy ysbrydoli plant, pobl ifanc ac oedolion i roi cynnig ar weithgareddau awyr agored a pharhau i'w cyflawni drwy gydol eu hoes.

Cymerodd **13,707** (6507 o oedolion a 7200 dan 18) ran mewn sesiynau blasu a rhaglenni datblygu. Cefnogwyd cyfanswm o **198** o glybiau gweithgareddau awyr agored cymunedol gan ein tîm staff, gydag 8 o'r rhain yn glybiau **NEWYDD** a sefydlwyd gan Y BAA. **11,938** o aelodau i'r clybiau yma (4063 o ddynion; 2648 o fechgyn iau; 3068 o ferched; 2159 o ferched iau)





# Rhaglen Gwirfoddoli

Mae ein rhaglen gwirfoddoli wedi ehangu i holl ardaloedd Cymru a rhannau o'r DU drwy ein swyddogion o fewn yr ardaloedd newydd, a thrwy oruchwyliaeth a rheolaeth ein Swyddog Gwirfoddoli.

**379** o wirfoddolwyr wedi cymryd rhan yng Ngwobrau'r Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol, gydag **86** o'r rhain yn **NEWYDD** i wirfoddoli. Ar y cyd â Chymdeithas Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi parhau i gefnogi rhaglen wirfoddoli i helpu rheoli effeithiau ymwelwyr.

Bu'ch ymroddiad chi, ein gwirfoddolwyr yn aruthrol. Pe bai gofyn inni dalu am gyfraniad o'r fath, buasai'n costio lleiafswm o £1.7miliwn y flwyddyn.

# Llwybrau i Waith

Trwy ein rhaglen cyflogadwyedd eleni gwelwyd **264** o bobl ifanc yn cymryd rhan yn ein sesiynau gweithgareddau awyr agored wythnosol gan gynnwys ymweliadau â chyflogwyr lleol, teithiau y tu allan i Gymru (Yr Alban ac Ardal y Llynnoedd) i helpu i adeiladu eu Llyfrau Cofnod Arweinwyr Mynydd yn ogystal â mynychu cyrsiau rhagofynion.  Eto, mae'r prosiect llwyddiannus hwn a ddechreuodd yng Ngogledd Cymru wedi'i rannu â'n swyddogion newydd yn y Canolbarth a'r De.

25 wedi symud ymlaen i hyfforddiant ac addysg bellach
15 wedi llwyddo i ennill Gwobrau CLIC
13 wedi symud ymlaen i wirfoddoli yn eu cymuned leol
14 wedi cael cyflogaeth barhaus o ganlyniad i'w presenoldeb ar y rhaglen.





# 'Antur y Ferch Hon'

Gwelodd y rhaglen Antur y Ferch Hon ychydig o brosiectau cyffrous newydd yn dechrau yn 2021/22 gyda chyfanswm o **525** o ferched a genethod yn cael budd o'r prosiect. Enghraifft o un o'r prosiectau yma oedd y prosiect 'Gorwelion Newydd', sef partneriaeth rhwng Ocean Youth Trust (Yr Alban), RYA Cymru a'r Bartneriaeth Awyr Agored er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau o ran cyfranogiad yn y sector awyr agored ac yn benodol i ddechrau mynd i'r afael â phrinder cenedlaethol o gapteiniaid benywaidd o fewn y byd cychod.

# Rhaglen Iechyd a Lles / Presgripsiynu Cymdeithasol

Roeddem yn gallu datblygu prosiectau Presgripsiynu Cymdeithasol newydd i wella iechyd meddwl, corfforol a lles unigolion. Rydym wedi cydweithio â phartneriaid newydd a rhagnodwyr cymdeithasol mewn ardaloedd newydd ledled Cymru. Roeddem yn gallu datblygu a gweithredu'r cynllun peilot llwyddiannus o Ogledd Cymru i'r pedwar ardal newydd yng Nghymru, Swydd Aeron, Cymbria a Gogledd Iwerddon. Cafodd **105** o bobl fudd o'n prosiectau presgripsiynu cymdeithasol yn 2021.





# Antur i Bawb

Mae ein prosiect Antur i Bawb wedi ymgysylltu â **1524** o bobl gydag anableddau. Mae un grŵp y gwnaethom helpu i'w sefydlu yn 2019 bellach wedi dod yn elusen gofrestredig sy'n darparu cyfleoedd hwylio a chwaraeon dŵr i bobl anabl a'u teuluoedd drwy gydol y gwanwyn/haf a gweithgareddau ar y tir drwy gydol yr hydref/gaeaf.

Rydym yn parhau i gynnig cyngor lle bo'r angen h.y. arweiniad ar ddwyieithrwydd a chyfleoedd ariannu.




## Ein Strategaeth 10 mlynedd newydd

Fel rhan o'u gwaith, mae'r BAA yn mynd ati i ddysgu pobl i barchu a gofalu am ein hamgylchedd naturiol, a'u nod ydy cynnig cymorth i drigolion Cymru a Phrydain i roi cynnig ar weithgareddau awyr agored gydol eu hoes. Mae eu strategaeth newydd wedi diffinio'u GWELEDIGAETH am y ddeng mlynedd nesaf o fwrw iddi i 'Gwella Bywydau Pobl drwy weithgarwch awyr agored'. Fel rhan o'r WELEDIGAETH hon bydd y Bartneriaeth yn hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles, gwella'r budd economaidd (gan gynnwys swyddi i bobl), a gwella gwerth cymdeithasol gweithgarwch awyr agored a chymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ar lawr gwlad.

## Ein Hamcanion

Ceisio cyflawni newid mewn cenedlaethau dros amser i annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored gydol eu hoes yn ogystal ag ategu'r gwaith adfer yn sgil y pandemig Covid-19.

Meithrin y gallu i gefnogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau'n lleol ynghyd â chefnogi perfformiad, datblygu sgiliau (profiadau tro cyntaf – hyd at weithgareddau cynaliadwy yn yr hirdymor a gweithgareddau wedi'u cynnal droeon) a chyflogi pobl o bob oedran.

Hybu'r model cyflawni partner i ddatblygu'r fframwaith cyfredol ledled gweddill Cymru ac ar hyd Prydain gyfan.

Datblygu cynnyrch o safon er mwyn gallu cynnig profiadau awyr agored dymunol.



Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn fodd i gyfeirio pobl o'r GIG gan wella iechyd meddwl unigolion, cynyddu eu lefelau gweithgarwch corfforol a lleihau afiechydon fel gordewdra a chlefyd siwgr.

Gallai'r BAA gynnig cyfle i bawb o'r gymuned gymryd rhan drwy gefnogi clybiau a hybiau awyr agored presennol yn y gymuned neu sefydlu rhai newydd. Mae'r BAA yn manteisio i'r eithaf ar y gweithlu gwych o wirfoddolwyr sydd wedi esblygu'n sgil y pandemig ac maen nhw'n sicrhau modd i bawb fanteisio ar y cyfleoedd.

**Ein Blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd nesaf...**

- Hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy dargedu grwpiau difreintiedig ac sydd wedi'u tangynrychioli
- Canolbwyntio ar bobl ifanc difreintiedig
- Defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd ac adnoddau naturiol
- Hybu lles meddyliol a chorfforol pobl
- Prosiectau Hybu sgiliau gwaith ac addysg
- Rhannu addysg, gwybodaeth ac ymarfer da
- Trechu a goresgyn rhwystrau e.e. cludiant / arferion cymdeithasol / Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Gwirfoddoli – datblygu gwirfoddolwyr a chlybiau a grwpiau cymunedol
- Datblygu Fframwaith Dysgu Antur yn yr Awyr Agored i gefnogi ac annog ysgolion yng Nghymru i gynnig dysgu yn yr awyr agored fel rhan o Gwricwlwm Cenedlaethol newydd Cymru
- Ymgysylltu a recriwtio hyd at 4 ardal newydd fel rhan o brosiect y DU
- Cynnal a chryfhau ardaloedd gweithredu presennol a sicrhau cyllid ac ymgysylltiad yn y dyfodol ar gyfer cynaliadwyedd ac annibyniaeth hirdymor

Rydym bellach bron i **4 mlynedd i mewn i'n prosiect Ehangu ym Mhrydain, sy'n 7 mlynedd o hyd.** Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac rydym yn gweithio yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon i sefydlu rhaglenni a fyddai'n ysbrydoli mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau iach yn yr awyr agored yn rheolaidd. Yn 2023 bydd hyd at 4 ardal newydd yn dod yn rhan o'r prosiect. Caiff y prosiect ei reoli gan ein Rheolwr Rhaglen newydd a'i gefnogi gan ein Partneriaid Cyflawni, RPT Consulting a Marchnata Aqua.

Rydym eisoes yn gweld enghreifftiau o rannu gwybodaeth ac ymarfer da ledled y pedair gwlad.

# Y GEIRIAU OLAF...



Ein nod ydy sicrhau ein bod yn elusen sy'n gweddu i bawb a llynedd fe gafodd ein hymdrechion eu clodfori drwy inni ennill Achrediad Arian Insport Chwaraeon Anabledd Cymru. Ni ydy'r mudiad Trydydd Sector cyntaf yng Nghymru i ennill yr achrediad. Rydym wrthi'n ddiwyd yn gweithio tuag at ennill y wobr Aur.

## Y CAMAU NESAF...

Hoffwn ddiolch i'n Prif Weithredwr, sy'n gyfrifol dros gynnal ac arwain gwaith strategol a gweithredol y bartneriaeth. Diolch yn fawr iddi hi a'r tîm staff ar ran y Bwrdd am eu gwaith diflino. Bu eleni'n heriol dros ben a bu iddyn nhw brofi eu bod yn dîm anhygoel.

Y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i ganfod cyfleoedd i ddylanwadu'n genedlaethol a rhannu ein profiad gyda rhanbarthau eraill ledled Cymru a Phrydain. Hyn i gyd heb inni golli momentwm a lleihau effaith ein gwaith yng Ngogledd Cymru. Bu i'r pandemig ddysgu pob un ohonom pa mor bwysig ydy hi i'n cymunedau allu manteisio ar yr awyr agored, pwysigrwydd natur a'r amgylchedd naturiol. Bu inni gyd ddysgu hefyd buasai pob un ohonom yn elwa o gymorth ar sut i fanteisio ar yr awyr agored yn gall, yn ddiogel ac mewn ffordd gynaliadwy.



**Gyda diolch o galon i ein haelodau, gwirfoddolwyr, cyfarwyddwr ac ein tîm staff am ein holl lwyddiant.**

**DIOLCH YN FAWR - THANK YOU**